**MEMORANDWM AC ERTHYGLAU CYMDEITHASIAD**

# Menter Iaith Sir Caerffili

**DEDDF CWMNÏAU 1985 ac 1989**

**CWMNI CYFYNGEDIG TRWY WARANT**
**HEB GYFALAF CYFRANNAU**

**Rhif y Cwmni: 5096968**

**Elusen Gofrestredig: 1105172**

**Menter Iaith Sir Caerffili,**
**Suite 1, Parc St. Margaret,**
**Heol Pengam, Aberbargod, Caerffili, CF81 9FW**
**www.mentercaerffili.cymru**

| FERSIWN | GWEITHGAREDD | DYDDIAD | DYDDIAD CYMERADWYO |
|---|---|---|---|
| 1.0 | Ymgorfforwyd | 2004 | 6ed Ebrill 2004 |
| 2.0 | Adolygwyd gan Aelod o'r Pwyllgor | Mai 2017 | Awst 2017 fel rhan o PQASSO |
| 3.0 | Adolygwyd gan y Bwrdd Rheoli | Mai 2019 | 22 Mai 2019 |
| 4.0 | Adolygwyd mewn Cyfarfod Cyffredinol Arbennig | Ionawr 2020 | 8 Ionawr 2020 |

# MEMORANDWM CYMDEITHASIAD

1. Enw’r Cwmni (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel “y Cwmni") yw Menter Iaith Sir Caerffili.

2. Bydd swyddfa gofrestredig y Cwmni yng Nghymru.

3. Yr amcanion y sefydlwyd y Cwmni i’w cyflawni yw:

   3.1 i hybu addysg a gwybodaeth gyffredinol y gymuned drwy hyrwyddo’r iaith Gymraeg.

4. Er cyflawni’r amcanion uchod, ond ddim fel arall, bydd gan y Cwmni'r pwerau canlynol:

   4.1. Yn amodol ar gymal 5 isod i gyflogi staff angenrheidiol i gyflawni’r Amcanion yn y modd priodol ac i wneud pob darpariaeth resymol ac angenrheidiol i dalu pensiynau budd-daliadau ymddeol i staff a’u dibynyddion.

   4.2. I godi, adeiladu, gosod, helaethu, newid a chynnal unrhyw siopau, storfeydd, swyddfeydd, ffatrïoedd, meysydd chwarae, adeiladau, gweithfeydd, ffyrdd, cyfarpar a pheiriannau sydd eu hangen neu a fyddai’n gyfleuster neu’n gymorth i’r Cwmni ar gyfer codi, adeiladu, gosod, helaethu, newid a chynnal unrhyw rai o’r rhai a enwir uchod.

   4.3. I brynu, ymgymryd â phrydles neu gyfnewid, llogi neu gaffael mewn unrhyw ffordd arall a dal dros unrhyw ystâd neu fudd, unrhyw diroedd, adeiladau, hawddfreintiau, hawliau, breiniau, consesiynau, hawliau patent, trwyddedau, prosesau cyfrinachol, eiddo o unrhyw fath sydd eu hangen neu a fyddai’n gyfleuster i ddiben cyflawni amcanion y Cwmni.

   4.4. I fenthyca neu godi neu sicrhau taliad ariannol i ddiben cyflawni neu mewn cysylltiad â chyflawni amcanion y Cwmni, neu i ddiben neu mewn cysylltiad â benthyca neu godi arian gan y Cwmni, i ddod yn aelod o unrhyw Gymdeithas Adeiladu ac i gadw cyfrifon banc.

   4.5. I dderbyn arian ar adnau neu fenthyciad yn ôl telerau a gymeradwyir gan y Cwmni ac i warantu ymrwymiadau a chontractau cleientiaid a chwsmeriaid ac eraill gan gynnwys aelodau’r Cwmni.

   4.6. I dynnu, gwneud, derbyn, cadarnhau, trafod, diystyru neu weithredu addawebau, biliau cyfnewid, sieciau neu offerynnau trosglwyddadwy eraill.

   4.7. I apelio am arian a cheisio tanysgrifiadau i gronfeydd y Cwmni ac i dderbyn benthyciadau di-log, cyfraniadau a rhoddion ar ffurf eiddo real neu bersonol gan gynnwys y rheini a roddir ar ymddiriedolaeth a/neu ar amodau sy’n gydnaws ag amcanion y Cwmni ac i weithredu yn unol â’r cyfryw ymddiriedolaeth a/neu amodau sy’n gydnaws ag amcanion y Cwmni.

   4.8. I gyfrannu arian parod neu asedau at unrhyw elusen fel y bernir yn briodol gan y Cwmni.

   4.9. I sefydlu unrhyw bartneriaeth ag unrhyw gwmni, corff neu berson sy’n cyflawni neu sy’n bwriadu cyflawni amcanion y Cwmni hwn.

   4.10. I sefydlu neu hyrwyddo neu gytuno i sefydlu unrhyw gwmni, busnes, cywaith neu gorff eraill yr ystyrir y byddai ei hyrwyddo o fantais uniongyrchol neu anuniongyrchol i amcanion neu fuddiannau’r Cwmni ac i brynu neu ddal neu waredu cyfrannau, stociau, gwarantau neu eiddo neu ymrwymiadau eraill y cyfryw gorff.

4.11. I brynu neu gael mewn ffordd arall ac i ymgymryd â chyfran o neu â holl fusnes, eiddo, asedau, rhwymedigaethau a thrafodion unrhyw berson neu gwmni sy'n cyflawni unrhyw fusnes y caniateir i'r Cwmni ei gyflawni.

4.12. I wneud, cyhoeddi, cyflenwi, gwerthu neu ddeilio â llyfrau, cyfnodolion neu recordiadau sain, ffilm neu fideo a chyhoeddiadau eraill mewn unrhyw gyfrwng neu unrhyw ddeunydd addysgol neu hyfforddi eraill neu i draddodi darlithoedd cyhoeddus, cynnal cyfarfodydd cyhoeddus neu seminarau a chyflwyniadau eraill, boed hynny trwy ddefnyddio'r deunydd addysgol neu hyfforddi uchod neu beidio.

4.13. I gael neu brynu'r holl hawlebau, trwyddedau neu nodau masnach a hawliau eiddo deallusol eraill sydd eu hangen i alluogi'r Cwmni i gyflawni'i amcanion neu fel y gwelir bod angen, i ddiogelu ei eiddo ar sail y cyfryw amodau a thelerau fel y gwêl yn dda.

4.14. I werthu, gwella, rheoli, datblygu, troi'n arian, cyfnewid, gosod neu rentu, breindal, cyfran o elw neu fel arall, hawddfreintiau, trwyddedau neu hawliau eraill ar gyfran neu'r holl eiddo ac asedau sydd ar y pryd yn perthyn i'r Cwmni, neu ddelio mewn unrhyw fodd neu werthu'r ymgymeriad, am ba gydnabyddiaeth bynnag y gwêl y Cwmni'n dda, yn amodol ar ddarpariaethau cymal 5.

4.15. I yswirio a digolledu holl weithwyr cyflogedig a gweithwyr gwirfoddol y Cwmni yn erbyn unrhyw golled, damwain, niwed corfforol, atebolrwydd proffesiynol a phob risg tebyg arall a ddaw drwy gyflawni eu cyfrifoldebau hyd at uchafswm a benodir gan y Cwmni (ond bydd yr uchafswm o leiaf yn gyfwerth a'r hyn a osodir yn ôl y gyfraith) ac i dalu'r premiwm am yr yswiriant o gronfeydd y Cwmni.

4.16. I ymgymryd neu amddiffyn gweithrediadau cyfreithiol yn ymwneud â'r Cwmni, ei eiddo, ei weithwyr cyflogedig a gwirfoddol a'i gyfarwyddwyr, ac i dalu'r costau cyfreithiol (os nad ellir adfer y costau o bartïon eraill) o gronfeydd y Cwmni.

4.17. I dalu o gronfeydd y Cwmni costau, taliadau a threuliau yn ymwneud a ffurfio, ymgorfforaethu, cofrestru, cynnal a gweinyddu'r Cwmni.

4.18 I godi ymwybyddiaeth a hybu delwedd a'r defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg yn yr ardal gan ddatblygu amrywiaeth o wasanaethau a chyfleoedd sy'n cynnwys, ond nid wedi ei gyfyngu i, gweithgarwch celfyddydol, addysg oedolion, gofal plant, gwaith ieuenctid, cefnogaeth i fusnesau, cyfleoedd gwirfoddoli, gweithgareddau i blant a theuluoedd a digwyddiadau cymunedol.

4.19 I wneud yr holl bethau cyfreithlon eraill hynny sy'n angenrheidiol i gyflawni'r amcanion.

4.20 Wrth gyflawni'r amcanion uchod rhaid i'r Cwmni warchod lles corfforol, meddyliol ac emosiynol y gymuned.

5 Caiff incwm ac eiddo'r Cwmni ei ddefnyddio'n unig i ddiben hyrwyddo'r amcanion a ni chaiff yr un rhan ohono ei thalu na'i throsglwyddo'n uniongyrchol na'n anuniongyrchol ar ffurf difidend, bonws neu fel arall o'r elw i aelodau'r Cwmni ac ni chaiff yr un cyfarwyddwr ei benodi i swydd o fewn y Cwmni y telir cyflog neu ffioedd ar ei chyfer ac ni fydd yn derbyn unrhyw daliad neu fudd arall mewn arian neu werth arian gan y Cwmni, ar yr amod na fydd dim yn y ddogfen hon yn rhwystro'r Cwmni rhag talu'r canlynol yn ddidwyll:

5.1 taliadau proffesiynol arferol am y gwaith a wneir gan unrhyw gyfarwyddwr sy'n gyfreithiwr, cyfrifydd neu berson arall sy'n arfer proffesiwn, neu gan unrhyw bartner o'u heiddo, pan gyfarwyddir ef neu hi i weithredu ar raddfa broffesiynol ar ei ran: Ar yr amod

na fydd mwyafrif y cyfarwyddwyr ar unrhyw adeg yn elwa o'r ddarpariaeth hon ac y bydd cyfarwyddwr yn gadael cyfarfod lle trafodir eu penodiad neu'u tâl, neu benodiad neu dâl eu partner;

5.2 taliadau rhesymol a phriodol am unrhyw wasanaethau a roddir i'r Cwmni gan unrhyw aelod, swyddog neu was o'r Cwmni nad yw'n gyfarwyddwr;

5.3 llog ar arian a fenthyciwyd gan unrhyw aelod o'r Cwmni neu gan gyfarwyddwr ar gyfradd flynyddol a fydd yn rhesymol ac yn briodol ac na fydd yn fwy na 2% yn llai na chyfradd fenthyg sylfaenol osodedig y banc clirio a ddewiswyd gan y cyfarwyddwyr;

5.4 ffioedd, tal neu fudd ariannol neu werth ariannol arall i unrhyw gwmni y gallai cyfarwyddwr fod yn aelod ohono a chanddo ddim mwy nag 1% o'r cyfalaf a ryddhawyd gan y Cwmni;

5.5 rhent rhesymol a phriodol am eiddo a roddir ar brydles neu a osodir gan unrhyw aelod o'r Cwmni neu gyfarwyddwr;

5.6 treuliau i ddigolledu unrhyw gyfarwyddwr.

6. Bydd gan yr aelodau atebolrwydd cyfyngedig.

7. Mae pob aelod o'r Cwmni'n ymgymryd i gyfrannu at asedau'r Cwmni os digwydd i'r Cwmni gael ei ddiddymu tra eu bod yn aelod neu o fewn blwyddyn ar ôl iddynt beidio â bod yn aelod, i ddiben talu dyledion neu rwymedigaethau'r Cwmni a gontractiwyd cyn iddynt beidio â bod yn aelod, ac i dalu costau, taliadau a threuliau'r diddymiad a chymhwyso hawliau a chyfraniadau ymysg ei gilydd, swm gofynnol na fydd yn fwy na phunt.

8. Bydd gan bob aelod un bleidlais pan roddir unrhyw gynnig gerbron neu pan gynhelir pleidlais gudd, waeth faint bynnag o arian, asedau neu warantau y byddant wedi eu benthyca neu eu cyfrannu mewn unrhyw ffordd i'r Cwmni.

9. Wedi i'r Cwmni ymddatod neu gael ei ddiddymu, ar ôl talu ei holl ddyledion a rhwymedigaethau, ni chaiff yr asedau sy'n weddill eu dosbarthu ymhlith yr aelodau ond cânt eu trosglwyddo er hyrwyddo'r amcanion a enwyd i unrhyw gorff sydd ag amcanion elusennol, sy'n debyg neu gydnaws â rhai'r Cwmni ac a fydd yn gwahardd dosbarthu eu harian a'u heiddo neu arian ac eiddo'r Cwmni ymysg ei aelodau neu eu haelodau i raddau sydd gyfwerth o leiaf ag a osodir ar y Cwmni yn rhinwedd Cymal 5 uchod, fel y'i penderfynir gan Gyfarfod Cyffredinol, neu i'r graddau na throsglwyddir yr asedau, i'w dal i ddibenion elusennol.

10. Caniateir newid cymalau yn y Memorandwm Cymdeithasiad ac eithrio cymal 9 a chymal 5 uchod trwy Benderfyniad Eithriadol a ddiffinnir drwy hyn fel un a dderbynnir gan fwyafrif na fydd lai na thair rhan o bedair o'r aelodau a fydd yn bresennol ac yn bwrw pleidlais mewn Cyfarfod Cyffredinol Eithriadol y rhoddwyd o leiaf un ar hugain o ddiwrnodau clir o rybudd amdano yn esbonio pwrpas galw'r cyfarfod.

# ERTHYGLAU CYMDEITHASIAD

## RHAGAIR

1. Yn amodol ar yr isod, bydd y rheoliadau yn Nhabl A a Thabl C Rheoliadau Cwmnïau (Tablau A-F) 1985 ac1989 (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel Tabl A) yn berthnasol i'r Cwmni hwn, ond lle ceir amrywiad neu anghysondeb rhwng yr Erthyglau hyn a Thabl A, yr Erthyglau hyn fydd drechaf.

## DEHONGLIAD

2. Yn y rheoliadau hyn:

- ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Cwmnïau 1985 ac 1989 gan gynnwys unrhyw ddiwygiadau statudol neu ailddeddfu arni tra pery mewn grym.
- ystyr "yr erthyglau" yw Erthyglau'r Cwmni.
- ystyr "diwrnodau clir" mewn perthynas â'r cyfnod o rybudd yw'r cyfnod hwnnw heb gynnwys dyddiad rhoi'r rhybudd na'r dyddiad y bernir iddo gael ei roi a'r dyddiad y'i rhoddir ar ei gyfer neu pan ddaw i rym.
- mae "gweithredu" yn cynnwys unrhyw ddull o weithredu.
- ystyr "yr ysgrifennydd" yw ysgrifennydd y Cwmni neu unrhyw berson arall a benodir i gyflawni dyletswyddau ysgrifennydd y Cwmni, gan gynnwys cyd-ysgrifennydd, ysgrifennydd cynorthwyol neu ddirprwy ysgrifennydd.
- ystyr "y Deyrnas Unedig" yw Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon.

Onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall, bydd i eiriau ac ymadroddion yn y rheoliadau hyn yr un ystyr ag sydd iddynt yn y ddeddf ac eithrio unrhyw newidiadau statudol iddynt nad oeddynt mewn grym pan ymrwymwyd y Cwmni i'r rheoliadau hyn.

### AELODAETH

3. Aelodau cyntaf y Cwmni fydd Tanysgrifwyr y Memorandwm Cymdeithasiad.

4. Gall Bwrdd y Cyfarwyddwyr dderbyn fel aelodau:

(a) unrhyw berson sy'n ddeunaw oed ac sy'n cytuno ag amcanion y Cwmni, heb wahaniaethu rhwng personau o safbwynt eu cyfoeth, gwleidyddiaeth, hil, crefydd, rhyw, anabledd, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol neu statws priodasol; neu
(b) unrhyw gymdeithas, cwmni, awdurdod lleol neu gymdeithas anghorfforedig sy'n cytuno ag amcanion y Cwmni;

ar yr amod mai dim ond personau neu gyrff sy'n gymwys ar gyfer un o'r categorïau aelodaeth a ddisgrifir yn Erthygl 8 a dderbynnir yn aelodau.

5. Bydd aelod sy'n gorff corfforedig neu gymdeithas trwy benderfyniad gan ei gorff llywodraethol yn penodi dirprwy, a fydd tra pery ei benodiad yn arfer ym mhob Cyfarfod Cyffredinol o'r Cwmni'r holl hawliau a phwerau y câi'r corff corfforedig neu'r gymdeithas eu harfer pe bai'n berson unigol.

6. Bydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn ystyried pob cais am fod yn aelod yn ei gyfarfod cyntaf ar ôl derbyn y cais neu mor fuan wedi hynny ag y bo'n ymarferol bosibl. Gall unrhyw ymgeisydd y gwrthodwyd ei gais i fod yn aelod fynnu i'w gais gael ei ystyried yng Nghyfarfod Cyffredinol nesaf y Cwmni a fydd yn penderfynu'n derfynol ar y mater. Wrth wrthod unrhyw gais am fod yn aelod, bydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn sicrhau bod yr ymgeisydd yn ymwybodol o'i hawl i apelio o dan ddarpariaethau'r Erthygl hon.

7. Bydd penderfyniad i dderbyn unrhyw gais am fod yn aelod yn amodol bod yr aelod yn arwyddo i gytuno ag amcanion y Cwmni.

**CATEGORÏAU AELODAETH**

8. Wrth dderbyn aelod, fe'i rhoddir yn un o'r categorïau aelodaeth a ganlyn, fel y gwêl a chytunir gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr:

   i. "Aelod o'r Cwmni" a fydd wedi talu aelodaeth o £1 ac sydd a holl hawliau aelodaeth y Cwmni;
   ii. "Aelod Cyflogedig" a fydd yn aelodau a gyflogir gan y Cwmni. Bydd aelodau cyflogedig yn ddarostyngedig i gyfnod prawf o chwe mis;
   iii. "Aelod Cymunedol" a fydd yn aelodau sy'n byw, yn gweithio neu sydd â budd o fewn cymuned;
   iv. "Aelod *Cy*fetholedig*" a fydd yn aelodau* wedi'u dewis oherwydd arbenigedd penodol sydd o fudd i'r Cwmni*.*
   v. "Aelod Corfforaethol" a fydd yn aelodau a dderbynnir o dan Erthygl 4(b)

   Nid oes rhaid i'r Bwrdd gynnwys pob math o Aelod o'r dewislen uchod.

**COFRESTR AELODAU**

9. Bydd y cwmni'n cadw Cofrestr o bob Aelod o'r Cwmni a fydd yn cynnwys enw a chyfeiriad pob aelod, y dyddiad ymaelodi a dyddiad peidio â bod yn aelod. Bydd pob aelod naill ai'n arwyddo caniatâd ysgrifenedig i fod yn aelod neu'n arwyddo'r Gofrestr wrth ddod yn aelod.

**TERFYNU AELODAETH**

10. Terfynir aelodaeth pob aelod ar unwaith pan fydd ef neu hi:

   i. yn peidio â chydymffurfio ag amodau'r aelodaeth a ddisgrifir yn Erthygl 4 ac Erthygl 8; neu
   ii. yn ymddiswyddo trwy lythyr at yr Ysgrifennydd; neu
   iii. yn cael ei ddiarddel neu ei diarddel trwy Benderfyniad Eithriadol yn unol ag Erthygl 26 mewn Cyfarfod Cyffredinol Eithriadol a alwyd i ystyried y mater; neu
   iv. yn marw, os bydd yn unigolyn; neu
   v. yn cael ei ddiddymu neu'n mynd yn fethdalwr, os yw'n gorff corfforedig; neu
   vi. yn methu â thalu'r tanysgrifiad blynyddol (os o gwbl) neu unrhyw arian arall sy'n ddyledus i'r Cwmni.

11. Ni ellir symud na throsglwyddo hawliau a breintiau aelod, a daw holl hawliau a breintiau'r aelod i ben pan na fydd mwyach yn aelod.

**CYFARFODYDD CYFFREDINOL**

12. Bydd y Cwmni ym mhob blwyddyn galendr yn cynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol gan ddatgan y cyfryw gyfarfod yn yr hysbysiadau sy'n ei alw ar yr amod na chynhelir unrhyw Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol ond y cyntaf fwy na phymtheg mis ar ôl cynnal y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol blaenorol. Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol cyntaf y Cwmni o fewn deunaw mis ar ôl ei ymgorffori.

13. Bydd busnes Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn cynnwys:

i. Derbyn adroddiadau'r Cadeirydd a Bwrdd Cyfarwyddwyr y Cwmni;
ii. ystyried y cyfrifon archwiliedig (os o gwbl) a gyflwynir gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr;
iii. ethol Bwrdd y Cyfarwyddwyr;
iv. ethol Cadeirydd a fydd yn aelod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr, a fydd yn llywyddu pob Cyfarfod Cyffredinol a phob cyfarfod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr;
v. penderfynu ar sut i ddefnyddio unrhyw warged/elw;
vi. penodi a phennu tâl yr Archwilwyr (os o gwbl).
vii. ethol y swyddogion gweithredol

Bydd pob busnes arall yr ymdrinnir ag ef mewn Cyfarfod Cyffredinol yn Arbennig.

14. Cynhelir Cyfarfodydd Cyffredinol Cyffredin y Cwmni fel bo'r galw. Ond gall y Cwmni mewn Cyfarfod Cyffredinol benderfynu cynnal Cyfarfod Cyffredinol yn fwy neu'n llai aml.

15. Gall Bwrdd y Cyfarwyddwyr, pryd bynnag y gwêl yn dda, gynnull Cyfarfod Cyffredinol Eithriadol o'r Cwmni, neu gall unrhyw ddau aelod neu 10% o'r aelodaeth, pa un bynnag sydd fwyaf, gynnull Cyfarfod Cyffredinol Eithriadol yn unol â darpariaeth adran 368 o'r Ddeddf.

**RHYBUDDION**

16. Gelwir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a chyfarfod a elwir i benderfynu ar gynnig arbennig fel y'i disgrifir yn Erthygl 26 trwy roi o leiaf un diwrnod ar hugain clir o rybudd. Gellir galw unrhyw Gyfarfod Cyffredinol arall trwy roi o leiaf o leiaf pedwar diwrnod ar ddeg clir o rybudd.

17. Rhoddir rhybudd am bob Cyfarfod Cyffredinol yn ysgrifenedig i bob aelod o'r Cwmni ac i'r Archwilwyr (os o gwbl) a'i roi'n bersonol iddynt neu ei anfon trwy'r post atynt neu i'w swyddfa gofrestredig neu unrhyw gyfeiriad arall a roddwyd ganddynt i'r diben hwn o fewn y Deyrnas Unedig.

18. Ni fydd y cyfnod o rybudd yn cynnwys y diwrnod y cafodd ei roi a bydd y rhybudd yn nodi man cynnal ac union amser y cyfarfod a natur gyffredinol y materion yr ymdrinnir â hwy. Yn achos Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol bydd y rhybudd yn datgan ei fod yn gyfarfod o'r fath ac yn achos Cyfarfod Cyffredinol Eithriadol, disgrifir union natur y materion a drafodir yn y cyfarfod.

19. Pan anfonir rhybudd trwy'r post, ystyrir y bydd y rhybudd wedi ei roi os bydd wedi ei gyfeirio, ei ragdalu a'i bostio'n briodol a'i fod yn weithredol wyth awr a deugain ar ôl ei bostio.

20. Os trwy ddamwain na roddir rhybudd o gyfarfod i unrhyw berson a ddylai gael rhybudd neu os na dderbynnir rhybudd o gyfarfod gan unrhyw berson sydd â hawl i dderbyn y rhybudd hwnnw, ni fydd hyn yn annilysu trafodion y cyfarfod hwnnw -.

**TRAFODION CYFARFODYDD CYFFREDINOL**

21. Bydd gan bob aelod ac unrhyw bersonau eraill a fydd wedi derbyn rhybudd yr hawl i fod yn bresennol mewn Cyfarfod Cyffredinol.

22. Ni thrafodir unrhyw fater mewn Cyfarfod Cyffredinol oni cheir cworwm o aelodau'n bresennol. Y cworwm am y tro fydd 20 o aelodau sydd â hawl i bleidleisio.

23. Os na fydd cworwm yn bresennol ymhen hanner awr ar ôl yr amser a bennwyd i'r cyfarfod, fe'i gohirir tan yr un diwrnod yn yr wythnos ganlynol ar yr un amser ac yn yr un lle, neu fel arall fel y bydd y Cyfarwyddwyr yn penderfynu, ac os na fydd cworwm yn bresennol yn y cyfarfod gohiriedig ymhen hanner awr ar ôl yr amser a bennwyd i'r cyfarfod, bydd yr aelodau sy'n bresennol yn gworwm.

24. Bydd y Cadeirydd neu, os na fydd ef neu hi'n bresennol, Gyfarwyddwr a enwebwyd gan y Cyfarwyddwyr, yn llywyddu'r cyfarfod fel Cadeirydd, ond os na fydd y Cadeirydd na'r cyfryw Gyfarwyddwr (os o gwbl) yn bresennol ymhen chwarter awr ar ôl yr amser a bennwyd i'r cyfarfod ac yn barod i lywyddu, bydd yr aelodau'n ethol un o'u plith i fod yn Gadeirydd.

25. Gall y Cadeirydd gyda chydsyniad y cyfarfod â chworwm ynddo (ac os cyfarwyddir ef neu hi i wneud hynny) ohirio'r cyfarfod tan amser arall ac i le arall ond ni thrafodir yn y cyfarfod gohiriedig unrhyw fater ond yr hyn y byddid wedi ei drafod yn y cyfarfod a ohiriwyd. Pan ohirir cyfarfod am ddeng niwrnod ar hugain neu fwy, rhaid rhoi rhybudd megis yn achos y cyfarfod gwreiddiol. Fel arall, ni fydd angen rhoi rhybudd o'r fath.

26. Penderfynir ar faterion mewn Cyfarfodydd Cyffredinol trwy bleidleisio ar gynigion:

   i. Bydd penderfyniadau ynglŷn â newid Cymal 5 a 9 yn y Memorandwm Cymdeithasiad ac Erthyglau 62 a 63 a'r Erthygl 26(a) hon yn gofyn pleidlais unfrydol gan bob aelod o'r Cwmni mewn Cyfarfod Cyffredinol Eithriadol y tystir iddi gan eu llofnodion.
   ii. Bydd penderfyniadau ynglŷn â newid cymalau yn y Memorandwm Cymdeithasiad heblaw'r rheini a nodir, a phenderfyniadau gofynnol eraill o bryd i'w gan statud a chan yr Erthyglau hyn, trwy Benderfyniad Arbennig. Diffinnir Penderfyniad Arbennig fel penderfyniad a wneir gan fwyafrif o ddim llai na thair rhan o bedair o aelodau'r Camni sy'n bresennol ac yn pleidleisio mewn Cyfarfod Cyffredino Eithriadol.
   iii. Gwneir pob penderfyniad arall drwy fwyafrif yn unig mewn penderfyniad cyffredin.

27. Mewn unrhyw Gyfarfod Cyffredinol penderfynir ar fater a roddwyd gerbron y cyfarfod ac iddynt bleidleisio arno drwy godi dwylo neu ddull addas arall o fwrw pleidlais oni ofynnir am bleidlais gudd, cyn neu wrth gyhoeddi canlyniad y bleidlais ddwylo, gan:

   i. y Cadeirydd, neu
   ii. aelod neu aelodau sy'n cynrychioli dim llai na degfed ran o gyfanswm y nifer yn y cyfarfod sydd â hawl i bleidleisio.

28. Oni ofynnir am bleidlais gudd o’r fath, bydd datganiad gan y cadeirydd bod cynnig wedi ei gario neu wedi ei golli a chofnod o hynny yng nghofnodion trafodion y Cwmni yn dystiolaeth ddigamsyniol o’r ffaith ac ni fydd angen prawf o’r nifer neu’r gyfran a bleidleisiodd o blaid cynnig neu yn ei erbyn. Gellir tynnu cais am bleidlais gudd yn ôl.

29. Os gofynnir am bleidlais gudd fe’i cynhelir yn y modd y gwêl y cadeirydd yn dda ac ystyrir mai canlyniad y bleidlais gudd fydd penderfyniad y cyfarfod y gofynnwyd am bleidlais gudd ynddo.

30. Yn amodol ar ddarpariaethau’r Ddeddf, bydd cynnig ysgrifenedig wedi ei arwyddo gan bawb a fydd bryd hynny’n aelodau yn ddilys ac effeithiol fel pe bai wedi ei dderbyn mewn Cyfarfod Cyffredinol a gynullwyd a’i gynnal yn y modd priodol a gall gynnwys nifer o ddogfennau ar yr un ffurf, a phob un wedi ei harwyddo ga un aelod neu fwy.

31. Gellir bwrw pleidlais yn bersonol neu drwy eilydd a benodwyd gan yr aelod ac ni fydd gan yr un aelod nac eilydd fwy nag un bleidlais.

32. Pan fwrir nifer cyfartal o bleidleisiau, bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fantol.

**BWRDD Y CYFARWYDDWYR**

33. Rheolir busnes y Cwmni gan Fwrdd Cyfarwyddwyr (y Bwrdd Rheoli) a fydd yn atebol i’r aelodau.

34. Penodir Cyfarwyddwyr cyntaf y Cwmni gan y tanysgrifwyr i femorandwm Cymdeithasiad y Cwmni, ac ni wasanaethant am fwy na blwyddyn. Yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol cyntaf ar ôl y cyfnod hwn, bydd hanner o’r Cyfarwyddwyr yn ymddiswyddo a chânt gynnig am gael eu hailethol.

35. Etholir Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn flynyddol gan yr aelodau yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cwmni a bydd gan aelodau sy’n ymddiswyddo hawl i gael eu hailethol heb gael eu hail-enwebu.

36. Anfonir gwahoddiadau at yr holl aelodau yn gofyn am enwebiadau ar gyfer ethol Cyfarwyddwr gyda rhybudd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Derbynnir enwebiadau gorffenedig hyd at saith niwrnod cyn dyddiad y cyfarfod. Ar bob enwebiad bydd angen llofnod y sawl a enwebir a llofnod cynigydd sydd bob un yn aelodau o’r Cwmni.

37. Oni phenderfynir yn wahanol gan y Cwmni mewn Cyfarfod Cyffredinol, ni fydd nifer y Cyfarwyddwyr yn llai pedwar ac yn fwy na phymtheg. Rhaid i’r aelodau cyflogedig fod yn lleiafrif ar Fwrdd y Cyfarwyddwyr bob amser.

38. Gall y Cyfarwyddwyr ar unrhyw adeg gyfethol unrhyw berson i Fwrdd y Cyfarwyddwyr boed yn aelod o’r Cwmni neu beidio, ar yr amod na fydd mwy na’r uchafrif a nodir yn Erthygl 37 ac na chaiff rhagor na thri eu cyfethol rhwng un Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a’r nesaf. Bydd pob person a gyfetholir felly yn ymddiswyddo yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn dilyn eu cyfetholiad ond byddant yn gymwys i’w hailbenodi wedi hynny.

**TREFNIADAU BWRDD Y CYFARWYDDWYR**

39. Gall aelodau Bwrdd y Cyfarwyddwyr i gwrdd i gyflawni busnes, gohirio a rheoli eu cyfarfodydd mewn ffyrdd eraill fel y gwelant yn dda a phenderfynir ar gwestiynau sy'n codi mewn unrhyw gyfarfod trwy fwyafrif o bleidleisiau.

40. Pan fwrir nifer cyfartal o bleidleisiau, bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fantol.

41. Gall Cyfarwyddwr, a bydd yr Ysgrifennydd ar sail cyfarwyddyd Bwrdd y Cyfarwyddwyr, gynnull cyfarfod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar unrhyw amser rhesymol.

42. Y cworwm angenrheidiol i fwrdd y Cyfarwyddwyr drafod busnes fydd pedwar o gyfarwyddwyr.

43. Os bydd nifer Bwrdd y Cyfarwyddwyr ar unrhyw adeg yn llai na'r isafrif a nodir yn Erthygl 37, gall weithredu fel Bwrdd y Cyfarwyddwyr i ddiben llenwi lleoedd gwag yn y corff neu i gynnull Cyfarfod Cyffredinol o'r Cwmni, ond nid i unrhyw ddiben arall.

44. Bydd y cadeirydd neu os bydd ef neu hi'n absennol ryw gyfarwyddwr arall a enwebwyd gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr yn llywyddu fel Cadeirydd y cyfarfod, ond os na fydd y Cadeirydd neu'r cyfryw gyfarwyddwr (os o gwbl) yn bresennol ymhen chwarter awr ar ôl yr amser a bennwyd i gynnal y cyfarfod, bydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn ethol un o'u plith i fod yn Gadeirydd.

45. Bydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn peri bod cofnodion cywir yn cael eu gwneud o drafodion holl gyfarfodydd y Cwmni, Bwrdd y Cyfarwyddwyr ac unrhyw is-bwyllgorau ac o'r holl faterion yr ymdrinnir â hwy yn y cyfryw gyfarfodydd. Bydd yr holl gofnodion hyn ar gael i'w harchwilio gan unrhyw aelod o'r Camni yn ystod orau gwaith arferol y Cwmni a chan unrhyw berson arall a awdurdodir gan y Cwmni mewn Cyfarfod Cyffredinol.

46. Bydd cynnig ysgrifenedig wedi ei arwyddo gan bawb a fydd bryd hynny yn Gyfarwyddwyr sydd â hawl i bleidleisio yn ddilys a bydd ganddo'r un effaith â phe bai wedi ei dderbyn mewn cyfarfod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr a gall gynnwys nifer o ddogfennau ar ffurf debyg gan un neu fwy o'r Cyfarwyddwyr.

**PWERAU BWRDD Y CYFARWYDDWYR**

47. Rheolir busnes y cwmni gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr a all dalu holl dreuliau'r Cwmni fel y gwêl yn dda gan arfer holl bwerau'r Cwmni y caniateir i'r Cwmni eu gwneud nad yw'n ofynnol i'r Cwmni eu harfer neu eu gwneud drwy statud neu drwy'r Erthyglau hyn mewn Cyfarfod Cyffredinol.

48. Ni all yr un rheoliad a wneir gan y Cwmni mewn Cyfarfod Cyffredinol annilysu unrhyw weithred flaenorol gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr a fuasai'n ddilys pe buasai'r rheoliad hwnnw heb ei wneud.

49. Caiff pob siec, addaweb, drafft, bil cyfnewid ac offeryn trosglwyddadwy arall a phob derbynneb am arian a dalwyd i'r Cwmni eu harwyddo, eu tynnu, eu derbyn, eu cadarnhau neu eu gweithredu, yn ôl y gofyn, yn y modd y bydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr o bryd i'w gilydd yn ei benderfynu drwy benderfyniad.

50. Heb ragfarn flaenorol i'w bwerau cyffredinol, gall Bwrdd y Cyfarwyddwyr arfer holl bwerau'r Cwmni i fenthyg arian ac i forgeisio neu roi cyfarwyddyd ar ei ymgymeriad neu eiddo neu unrhyw ran ohono ac i gyhoeddi debendurau a gwarannau eraill boed yn llwyr neu fel gwarant rhag dyled, atebolrwydd neu ymrwymiad y Cwmni neu unrhyw drydydd parti.

51. Gall Bwrdd y Cyfarwyddwyr ddirprwyo ei bwerau i is-bwyllgorau cymwys yn cynnwys pa aelodau bynnag fel y gwêl yn dda. Bydd unrhyw is-bwyllgor a ffurfir drwy hynny yn cydymffurfio â'r rheoliadau y gall Bwrdd y Cyfarwyddwyr eu gosod arno.

52. Bydd Cyfarwyddwyr y Cwmni yn penodi dau Gyfarwyddwr a enwyd i lofnodi unrhyw ddogfennau cyfreithiol ar ran y Cwmni, gan gynnwys prydlesi lle bo angen llofnodion i weithredu pwerau'r Cwmni.

**ANGHYMHWYSO A DIARDDEL CYFARWYDDWYR**

53. Bydd swydd cyfarwyddwr yn dod yn wag ar unwaith os bydd ef neu hi yn:

i. peidio â bod yn Gyfarwyddwr oherwydd unrhyw ddarpariaeth o dan y ddeddf neu o ganlyniad i waharddiad trwy gyfraith rhag bod yn Gyfarwyddwr; neu
ii. mynd yn fethdalwr neu'n dod i unrhyw drefniant neu gyfamod gyda'u credydwyr; neu
iii. dioddef neu o bosibl yn dioddef anhwylder meddwl a naill ai'n:
    - cael eu derbyn i ysbyty yn rhinwedd cais am driniaeth o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 neu
    - os gwneir gorchymyn gan lys sydd â grym (naill ai yn y Deyrnas Unedig neu rywle arall) mewn materion yn ymwneud ag anhwylder meddwl i'w cadw neu i benodi derbynnydd, curator bonis neu rywun arall i arfer pwerau mewn perthynas â'u heiddo neu eu materion; neu
iv. ymddiswyddo trwy roi rhybudd i'r Cwmni; neu
v. os bydd yn absennol o gyfarfodydd y Cyfarwyddwyr fwy na phedair gwaith yn olynol a gynhelir yn ystod y cyfnod hwnnw heb ganiatâd Bwrdd y Cyfarwyddwyr ac os bydd y Cyfarwyddwyr yn penderfynu eu diswyddo; neu
vi. os cânt eu diswyddo trwy benderfyniad gan y Cwmni mewn Cyfarfod Cyffredinol yn unol ag Adran 303 o'r Ddeddf.

**TALU CYFARWYDDWYR**

54. (a) Bydd unrhyw arian a delir i Gyfarwyddwyr yn dâl yn unig am wasanaethau a ddarperir i'r Cwmni, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Cymal 5 o'r Memorandwm Cymdeithasiad, gan gynnwys talu cyflog teg a phriodol yn achos Cyfarwyddwyr a gyflogir gan y Cwmni. Gellir talu i Gyfarwyddwyr hefyd unrhyw dreuliau rhesymol a ysgwyddir ganddynt wrth fynychu cyfarfodydd neu ddychwelyd o gyfarfodydd Cyfarwyddwyr neu Gyfarfodydd Cyffredinol y Cwmni neu mewn perthynas â busnes y Cwmni.

**YSGRIFENNYDD A SWYDDOGION GWEITHREDOL ERAILL**

55. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf, penodir yr ysgrifennydd a swyddogion gweithredol eraill gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr am ba gyfnod neu dâl bynnag neu o dan ba amodau bynnag ag y gwêl yn dda, a gellir diswyddo ysgrifennydd neu swyddog gweithredol a benodir yn y modd hwnnw.

**CYFRIFON**

56. Bydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn peri bod cyfrifon cywir yn cael eu cadw mewn perthynas â'r canlynol:

   i. Yr holl arian a dderbynnir ac a werir gan y Cwmni a'r materion y mae'r derbyniadau a'r gwariannau hynny yn gysylltiedig â hwy.
   ii. Yr holl nwyddau a/neu wasanaethau a brynir neu a werthir gan y Cwmni; ac
   iii. Asedau a rhwymedigaethau'r Cwmni.

   Ystyrir bod cyfrifon cywir wedi eu cadw os ydynt yn rhoi cofnod gwir a theg o sefyllfa'r Cwmni ac yn esbonio ei drafodion ariannol.

57. Cedwir y cyfrifon yn swyddfa gofrestredig y Cwmni neu mewn unrhyw le arall y gwêl Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn dda, a byddant bob amser ar gael i holl aelodau'r Cwmni eu harchwilio yn amodol ar gymeradwyaeth Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn ystod oriau gwaith arferol a chan unrhyw bobl eraill a awdurdodir gan y Cwmni mewn Cyfarfod Cyffredinol.

58. Bydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr o bryd i'w gilydd yn unol â'i ymrwymiadau statudol yn peri paratoi a dwyn gerbron y Cwmni mewn Cyfarfod Cyffredinol ba gyfrifon incwm a gwariant, mantolenni ac adroddiadau bynnag ag sydd yn ofynnol trwy statud.

**DEFNYDDIO GWARGED**

59. Defnyddir arian gwarged y Cwmni fel a ganlyn, ar sail y cyfrannau ac yn ôl y dulliau a argymhellir gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ac a gymeradwyir yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol:

   i. i greu cronfa gyffredinol wrth gefn i sicrhau parhad a datblygiad y Cwmni;
   ii. i'w dalu i ddibenion cymdeithasol ac elusennol.

**RHEOLAU NEU IS-DDEDDFAU**

60. Gall Bwrdd y Cyfarwyddwyr o bryd i'w gilydd wneud pa Reolau neu Is-ddeddfau y gwêl yn dda eu gwneud er mwyn sicrhau bod y Cwmni'n cael ei redeg a'i reoli'n briodol. Bydd gan y Cwmni mewn Cyfarfod Cyffredinol bŵer i newid neu i ddiddymu'r Rheolau neu'r Is-ddeddfau ac i ychwanegu atynt a bydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn mabwysiadu pa ddulliau bynnag a fernir yn ddigonol i ddwyn sylw aelodau'r Cwmni at bob Rheol neu is-ddeddf o'r fath, a fydd, tra parhânt mewn grym, yn ymrwymiad ar holl aelodau'r Cwmni. Ar yr amod, serch hynny, na fydd unrhyw Reol neu Is-ddeddf yn anghyson â'r hyn a geir yn y Memorandwm yn Erthyglau'r Cwmni.

**INDEMNEDD**

61. Indemnir pob aelod, Cyfarwyddwr, Ysgrifennydd y Cwmni, archwilydd (os o gwbl) a swyddog arall tra pery'r Cwmni o asedau'r Cwmni rhag unrhyw golled neu atebolrwydd a achosir ganddynt o ganlyniad wrth weithredu dyletswyddau ei swydd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau adran 310 o'r Ddeddf, ac eithrio lle bo colled neu atebolrwydd o'r fath i'w priodoli i'r canlynol:

   i. twyll neu faterion eraill y gellir dedfrydu'r aelod dan sylw yn euog o drosedd amdanynt;
   ii. esgeulustod;
   iii. gweithredoedd a gyflawnwyd yn ymwybodol gan y person dan sylw sydd y tu hwnt i awdurdod penodol neu unrhyw derfyn ar yr awdurdod hwnnw.

**DIDDYMIAD**

62. Bydd cymal 9 o'r Memorandwm Cymdeithasiad mewn perthynas â diddymu'r Cwmni a'i ddwyn i ben yn weithredol fel pe bai'r darpariaethau hynny wedi eu hatgynhyrchu yn yr Erthyglau hyn.

**DIWYGIO ERTHYGLAU**

63. Ni ellir diwygio Erthyglau'r Cymdeithasiad hyn ond drwy Benderfyniad Arbennig a wneir yn unol ag Erthygl 26 ac eithrio lle nodir fel arall. Ni fydd unrhyw ddiwygiad i Erthyglau'n ddilys oni chofrestrir ef gyda'r Cofrestrydd Cwmnïau.

**CYMERADWYAETH A CHYFRIFOLDEB**

**Cymeradwywyd y ddogfen hwn gan Bwyllgor Rheoli Menter Caerffili mewn Cyfarfod Cyffredinol Arbennig ar:**

**08.01.20**

---

**ac arwyddwyd ar eu rhan gan:**

David A. Thomas

**Cadeirydd Bwrdd Rheoli Menter Iaith Caerffili**

**Dyddiad: 08.01.20**